PARRY, IDRIS FREDERICK (1916-2008), ysgolhaig llenyddiaeth Almaeneg, awdur a darlledwr

Enw: Idris Frederick Parry
Dyddiad geni: 1916
Dyddiad marw: 2008
Priod: Eirwen Lloyd Parry (née Jones)
Rhiant: William Parry
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: ysgolhaig llenyddiaeth Almaeneg, awdur a darlledwr
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Perfformio; Ysgolheictod ac leithoedd
Awdur: Winifred V. Davies

Ganwyd Idris Parry ym Mangor, Sir Gaernarfon, 5 Rhagfyr, 1916, mab i William Parry, postmon, a'i wraig. Wedi mynychu Ysgol Gynradd Caetop, Bangor, aeth yn ei flaen i Ysgol Friars, ac yna i Goleg Prifysgol Gogledd Cymru yn yr un ddinas. Ym 1939 graddiodd gyda gradd dosbarth cyntaf mewn Almaeneg. Ym 1940 galwyd ef i'r fyddin ac ar gyfrif ei wybodaeth o Almaeneg cafodd ei anfon i Adran Gudd-wybodaeth Wleidyddol y Swyddfa Dramor. Dychwelodd i'w yrfa academaidd ym 1947, yng Ngholeg Gogledd Cymru, Bangor, ac arhosodd yno fel darlithydd, yna uwch-ddarlithydd, tan 1963, pan gafodd ei apwyntio i un o'r ddwy gadair Almaeneg ym Mhrifysgol Manceinion lle yr arhosodd nes iddo ymddeol ym 1977. Yn ystod ei amser ym Mangor dyfarnwyd iddo radd MA (1951) am astudiaeth feirniadol o *Sonette an Orpheus* gan Rainer Maria Rilke.

Roedd gan Idris Parry ystod eang o ddiddordebau llenyddol, ond ei gyfraniad pennaf i feirniadaeth lenyddol oedd, mae'n si r, ei waith ar Goethe a Kleist, ac ar rai o ffigurau amlycaf moderniaeth Almaeneg, megis Thomas Mann, Rilke, Hugo von Hofmannsthal a Kafka. Roedd yn gyfieithydd talentog: cyhoeddwyd ei gyfieithiad o '*Yr Achos*' gan Kafka gan Penguin Books ym 1994 a derbyniodd glod mawr gan y beirniaid. Y mae Philip Pullman, awdur y drioleg *His Dark Materials*, hefyd wedi cydnabod ei ddyled ddeallusol i gyfieithiad ardderchog Parry o draethawd Kleist, 'On the Marionette Theatre' a gyhoeddwyd gyntaf yn *Hand to Mouth and Other Essays* ym 1981. Roedd yn darlledu yn aml ar y *BBC Third Programme* yn y 1960au a'r 1970au, ac fe gyhoeddwyd llawer o'r cyfraniadau yma, e.e. yn *Speak Silence*, 1988. Roedd yn gyfaill i'r awdur Almaeneg Elias Canetti ac fe chwaraeodd rôl bwysig yn sicrhau fod gwaith Canetti yn cael sylw haeddiannol yn y Deyrnas Unedig. Derbyniodd Urdd Teilyngdod Gweriniaeth Ffederal yr Almaen yn 1981 yn werthfawrogiad o'i wasanaeth i lenyddiaeth Almaeneg fodern. Ei brif weithiau yw *Animals of Silence: Essays on Art, Nature and Folk-tale* (OUP 1972), *Hand to Mouth and Other Essays* (Gwasg Carcanet 1981), *Speak Silence* (Gwasg Carcanet 1989), *The Trial* (cyfieithiad, Penguin 1994).

Yn ystod ei amser yn fyfyriwr ym Mangor cyfarfu ag Eirwen Lloyd Jones o Benmaenmawr (bu farw ym 1992), a phriodasant ym 1941. Roedd ganddynt ddwy ferch. Bu Idris Parry farw yn Frinton-on-Sea, swydd Essex, 15 Ionawr, 2008 ac fe'i hamlosgwyd yn Weeley (Essex).

Awdur

Winifred V. Davies

Ffynonellau

The Independent, 26 Mawrth 2008

gwybodaeth bersonol

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20748838

Dyddiad cyhoeddi: 2008-07-30

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.